# GWASTADEDDAU LLEIDIOG

*Sgôp y Cynllun Gweithredu:*

Mae'r Cynllun Gweithredu yma yn trafod cynefinoedd CGB DU[1], cynefinoedd gwaddodol rhyng-lanw a grewyd gan waddodiad mewn amgylcheddau arfordirol egni isel, yn enwedig aberoedd. Mae llecynnau o fwd meddal rhyng-lanw, mwd tywodlyd a mwd graeanaidd wedi eu cynnwys o fewn cyd-destun y cynllun yma.

## 1. SEFYLLFA BRESENNOL


### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd[a] (Atodiad I) |
| | Cyfarwyddiaeth Adar[b] |
| | Safleoedd Tiroedd Gwlyb Ramsar[c] |
| | Cronfau biosffer |
| DU a Chymru | Deddfwriaeth SDGA[d] (rhai dedd lleidiog) |
| | Blaenoriaeth CGB DU |
| | Rhestr S74 Cymru[e] |
| Gwynedd | AHNE Llŷn |
| | Arfordir Treftadaeth |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Amcangyfrifwyd fod cyfanswm adnodd Aberoedd Prydain tua 588,000 ha, ac o hyn mae 55% yn ardal rhyng-lanw, mwd a gwastatir tywodlyd yn bennaf[2]. Mae gwastadeddau rhyng-lanw yn gorchudio tua 270,000ha[2]. Mae gan Brydain tua 15% o gynefin aberol gogledd-orllewin Ewrop. Mewn sawl rhan o'r DU mae gwastadeddau lleidiog wedi lleihau mewn maint oherwydd hawliaeth tir.

Mae gwastadeddau lleidiog yn un o'r cynefinoedd bywyd gwyllt cyfoethocaf yng Nghymru, ac yn anffodus, y cynefin sydd wedi ei golli fwyaf ar draul datblygiad yn y gorffennol. Mae gwastadeddau lleidiog hyd heddiw yn cael eu hystyried yn safleoedd budr a drewllyd, sy'n eu gwneud yn darged pennaf ar gyfer ail-ddatblygiad i greu marinâu, cobiau a hawliaeth tir ar gyfer pwrpasau amaethyddol, masnachol a diwydiannol.



Mae gwastadeddau lleidiog yn gyffredin yng Nghymru, ond mae eu maint a'u nifer yn gostwng, a'u safon (cynhyrchedd a chyfoeth rhywogaethau) yn gostwng mewn sawl rhan.

[a]Mae gwastatir lleidiog wedi eu rhestru ar Atodiad I y "Gyfarwyddiaeth Cynefinoedd" – Cyfarwyddiaeth Cyngor 92/43/EEC ar 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol i anifeiliaid a blodau gwyllt.
[b] Gall gwastatir lleidiog neilltuol gael eu dosbarthu fel SPA o dan y "Gyfarwyddiaeth Adar" – Cyfarwyddiaeth Cyngor 79/409/EEC ar 2 Ebrill 1979 ar gadwraeth adar gwyllt
[c] Gall gyfrif safleoedd neilltuol o wastatiroedd lleidiog.
[d] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad (CRoW) 2000
[e] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru – Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf i Amcanion Gwarchod Amrywiaeth Biolegol. Hawlfraint y Goron 2003.

### 1.3 Statws yng Ngwynedd [f]

Mae rhannau mawr o wastatiroedd lleidiog yng Ngwynedd (tu allan i Awdurdod parc Cenedlaethol Eryri) yn cynnwys Traeth Lafan, Gwastadeddau Bangor, Bae Foryd, Harbwr Pwllheli, Aber Glaslyn / Dwyryd, Aber Mawddach a Broadwater. Mae llecynnau penodol o fwd o fewn yr Afon Fenai yn ogystal.

Mae aberoedd yng Ngwynedd yn gymharol anllygredig. Yn 2000 rhoddwyd aberoedd Gwynedd yn y dosbarth uchaf (A/da), gan Asiantaeth Amgylchedd Cymru oherwydd eu safon biolegol (presenoldeb pysgod o fathau arbennig), safon esthetig (tystiolaeth o lygredd esthetig) a safon dŵr (lefelau o ocsigen tawdd).

Tra nad oes data penodol i awgrymu gostyngiad yn hyd a lled y gwastadeddau lleidiog yng Ngwynedd, mae'n bosib fod gostyngiad wedi digwydd oherwydd sefydlu argloddiau rheilffyrdd yn aber yr afon Mawddach.

## 2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YMA YNG NGWYNEDD

- Datblygiadau arfordirol a treillio cynnal a chadw; niwed ffisegol neu aflonyddiad; addasu patrymau llif y llanw; newidiadau mewn patrymau trafnidiaeth gwaddod neuyn y math o is-haenau.
- Palu am abwyd; aflonyddiad ffisegol ble mae'r abwydyn gwyrdd *Neanthes virens*, abwydyn aber *Hediste diversicolor* a lygwn *Arenicola marina* yn gyffredin.
- Pysgodfeydd: casglu neu dreillio am gocos, crancod sy'n plicio neu gragenbysgod eraill, cregyn gleision bwytadwy *Mytilus Edulis* sy'n hynod o bwysig yn Afon Menai.
- Gorlif amaethyddol a charthffosiaeth: cyfoethogiad organig yn arwain at amgylchiadau anocsig a lleihad mewn nifer rhywogaethau a'u cynhyrchedd.
- Rhywogaethau anfrodorol: mae ymlediad cordwellt *Spartina anglica* wedi achosi tyfiant dros wastatiroedd lleidiog ar yr uwch-lannau.
- Gweithgaredd pobl: aflonyddu poblogaethau adar hirgoes ac adar hela mewn safleoedd bwydo a chlwydo.
- Newidiadau mewn prosesau arfordirol hefyd yn cael effaith ar y cynefin yma.

## 3. CGR A CGC PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Morfa heli arfordirol, Corsydd pori arfordirol a gwastadeddau llifogydd, Llethrau a chlogwyni glan môr, Morlynnoedd hallt, Gwelyau morwellt, Mwd graenog cysgodol, Traethlinau

Dyfrgi

[f] O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardalœdd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

## 4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae pob aber yng Ngwynedd â rhyw fath o ddynodiad statudol megis Safle Ramsar, AGA, ymgeisyddArdal Cadwraeth Arbennig, S0DGA, GNG neu GNL.
- Yng Ngwynedd (tu allan i Awdurdod parc Cenedlaehtol Eryri) mae gwastadeddau lleidiog wedi eu cynnwys o fewn AGA Traeth Lafan, ymgeisydd ACA Afon Menai a Bae Conwy a Ymgeisydd ACA Pen Llŷn a Sarnau (ychwanegwyd"gwastadeddau lleidiog a gwastadeddau tywod ar lanw isel" atynt fel nodwedd).
- Mae rhannau o wastadeddau lleidiog wedi eu cynnwys mewn SoDGAau, e.e. Bae Foryd, ac hefyd mewn safleoedd sydd wedi eu hadnabod fel safleoedd Bywyd Gwyllt Posib.
- Mae Traeth Lafan, Bae Foryd a Lon Cob Bach wedi eu dynodi fel Gwarchodfeydd Natur Lleol.
- Mae llawer o arfordir Pen Llŷn wedi ei ddynodi fel Arfordir Treftadaeth ac wedi ei gynnwys hefyd o fewn AHNE Llŷn.

### 4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae cynllun rheolaeth wedi ei gynhyrchu ar gyfer ygeisydd ACA Pen Llŷn a'r Sarnau sydd hyd yn hyn wedi cyfeirio at aberoedd a bas greigiau yn unig, ond mae'n cael ei ymestyn i gynnwys nodweddion eraill yn cynnwys gwastadeddau lleidiog a gwastadeddau tywod Rhyng-lanw.
- Mae llyfryn ar werth mwd a gwastadeddau lleidiog wedi ei gyhoeddi gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ym 2000.
- Mae partneriaeth annibynnol o ymarferwyr arfordirol wedi ei sefydlu yng Nghymru o'r enw Arfordir
- Sefydlwyd grŵp Bioamrywiaeth Môr a Dŵr Croyw Gogledd Cymru sy'n cyfarfod ddwy waith y flwyddyn.

### 4.3 Arolygon, ymchwilio a monitro

- Fel rhan o'r arolwg rhyng-lanw Cam Un traws-Gymru cyfredol, mapiwyd allan aberoedd ac ardaloedd o waddod rhyng-lanw gan CCGC.
- Ymgymerwyd â phrosiect yn 2001 gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru a CCGC, yn edrych ar effaith 'peeler crab collection tiles' ar wastatir lleidiog rhyng-lanw. Adroddiad contract CCGC rhif 511.
- Fel rhan o brosiect PhD a wnaethpwyd yn adran Gwyddor Môr Prifysgol Cymru Bangor (Kirsty Dernie a Dr GL. J Kaiser) o'r enw 'Recovery of benthic communities in response to physical disturbance', cynhaliwyd ymchwil mewn amryw o gynefinoedd lleidiog yn Afon Menai a chyhoeddwyd y gwaith yn y Journal of Animal Ecology 2003.
- Fel rhan o brosiect tair-blynedd cyfredol a gyllidir gan Gyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol o'r enw 'Sustainable mussel cultivation', mae adran Gwyddor Môr PrifysgolCymru bagor (Dr GL. J Kaiser) yn edrych ar faint o amaethu cregyn gleision sy'n bosib i'w gael yn Afon Menai.
- Fel rhan o MSc Ecoleg ym Adran Gwyddorau Biolegol PCB gan Amanda Lockley o'r enw 'Assessment of the level of recovery from bait-collection by an intertidal mudflat community', ymchwil a gynhaliwyd yn Afon Menai yn 2001.

- Fel rhan o brosiect cynhaliaeth dechnolegol a gyllidwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, cynhyrchodd David Jones o Hebog Environmental adroddiad o'r enw 'Marine mud and muddy gravel characterisation in the Menai Strait[3]' ym mis Mawrth 2003.
- Adran 13 "UK priority sediment habitats:Mud Flats in North Wales" yn 'Guidance for the production of local Marine Habitats and Species Action Plans in Wales', : yn y wasg.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynnal maint presennol y gwastadeddau lleidiog yng Ngwynedd, pryd mae prosesau naturiol yn caniatáu.
2. Adfer y cynefin gwastatir lleidiog rhyng-lanw ble mae'n ymarferol bosib yng Ngwynedd.
3. Cynnal ac adfer (ble mae angen) ansawdd dŵr aberoedd yng Ngwynedd i sicrhau fod y gwastatir lleidiog presennol yn cyflawni eu rôl ecolegol a chadwraeth pwysig.
4. Codi ymwybyddiaeth gymunedol o werth gwastatir lleidiog ar gyfer bioamrywiaeth, fel mwynder lleol ac fel adnodd economaidd.

## 6. CAMAU ARFAETHEDIG

| **Côd** | **Camau** | **Partner(iaid)[9]** |
|---|---|---|
| **Polisi a Deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau sy'n effeithio ar fanau sensitif yn cydfynd â chadwraeth gwastadeddau lleidiog, ac ddim yn effeithio ar eu cyfanrwydd<br>TARGED: Cyfredol | **CG**, PPMGOGC, Partneriaid perthnasol |
| 2 | Sicrhau fod oll wastadeddau lleidiog sy'n cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi'n Safleoedd Bywyd Gwyllt.<br>TARGED: Cychwyn y broses ddynodi yn ystod 2005 | **CG**, CCGC, CBNGC, AA |
| **Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd** | | |
| 3 | Cynnwys a gweithredu ar anghenion cadwraeth gwastatir leidiog yn holl gynlluniau rheoli safleoedd perthnasol, ac mewn cynlluniau rheoli SAC<br>TARGED: Cyfredol | **CCGC**, CG, AA |
| 4 | Sicrhau fod anghenion cadwraeth gwasdeddau lleidiog yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau rheoli arfordiroedd perthnasol (gan Grŵp Arforol Bae Ceredigion, Grŵp Arfordir Llandudno i Ynys Enlli)<br>TARGED: Cyfredol | **CG**, Arfordir, CCGC, AA, CFGA, CBNGC, YG, PPMGOGC |
| 5 | Sicrhau fod cynlluniau atal llygredd olew yn cynnwys canllawiau generig ar gyfer gwastadeddau lleidiog er mwyn medru ymateb i ollyngiadau olew.<br>TARGED: Cyfredol | **AA**, CCGC, |
| 6 | Adnabod a lleihau ffynonellau pwynt a ffynonellau gwasgarog difwynyddion.<br>TARGED: Cyfredol | **AA**, DC |
| **Cyngor** | | |
| 7 | Cynhyrchu a gweithredu ar godau ymddygiad ar gyfer gwastadeddau lleidiog neu aberoedd cyflawn, fel côd ymarfer da ar gyfer cynaeafwyr abwyd, o bosib fel prosiect ar y cyd Gogledd Cymru/ Cymru Gyfan.<br>TARGED: i'w osod | Arfordir, CG, |

9 Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

| Arolwg, ymchwil a monitro | | |
|---|---|---|
| 8 | Sefydlu a gweithredu rhaglen i fonitro maint ac ansawdd gwastadeddau lleidiog yng Ngwynedd, yn cynnwys astudiaethau i sefydlu dwysedd ac effeithiau ecolegol posib o gynaeafu abwyd.<br>TARGED: I'w osod. | **AA**, CCGC, CSBC, CG, CBNGC, PPMGOGC, CFGA, PCB |
| 9 | Cynorthwyo gydag ymchwil i dechnegau, a datblygiad technegau, ar gyferadfer a chreu gwastadeddau lleidiog ble mae hynny'n briodol ac yn ymarferol bosib.<br>TARGED: Cyfredol | **AA**, CCGC, PCB, CFGA |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 10 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith cynllunwyr a datblygwyr am bwysigrwydd ffwythiannau gwastadeddau lleidiog mewn systemau aberoedd trwy ddarparu a rhannu taflen, o bosib fel prosiect Gogledd Cymru / Cymru Gyfan ar y cyd.<br>TARGED: To be set | **CG**, CCGC, AA PPMGOGC , YMGG, CFGA, |
| 11 | Cylchu taflen "Côd cadwraeth i bysgotwyr môr" mewn digwyddiadau perthnasol ac i grwpiau perthnasol, i annog pysgota môr a phalu abwyd cynaliadwy.<br>TARGED: Cyfredol | **CCGC**, CG, YMGC |
| 12 | Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus am werth ecolegol a chymdeithasol-economaidd o wastadeddau lleidiog, a ffyrdd o leihau effeithiau andwyol sy'n dod yn sgil cynaeafu abwyd, trwy erthyglau yn y wasg leol a chyhoeddiadau arbenigol, sgyrsiau i glybiau pysgota, dehongli a digwyddiadau, a thrwy ddefnyddio GNL Y Foryd a Thraeth Lafan fel safleoedd blaenllaw<br>TARGED: Cychwyn 2004 | **CG**, CCGC, YG, PPMMGCaGO, AA, CFGA, YMGC |

# 7 PARTNERIAID A CHYFLEON

## 7.1 Prif bartner ar gyfer CGC

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AA)

## 7.2 Partneriaid allweddol

Arfordir

Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy (CSBC)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Dŵr Cymru (DC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Ymwybyddiaeth Morwrol Gogledd Cymru (YMGC)

Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin (PPMMGCaGO)

Grwp Bioamrywiaeth Môr a Dŵr Croyw Gogledd Cymru (GBMDCGC)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Cymdeithas frenhinol er Gwarchod Adar Cymru (CFGA)

Coleg Prifysgol Bangor (CPB)

**7.3 Cyfleon**

Pysgotwyr môr, defnyddwyr hamdden o'r arfordir

## 8. DIOLCHIADAU

Prif awdur: Kate Williamson (CG)
Ymgynghorydd: Gabrielle Wynne (CCGC), Aethne Cooke (CCGC), Dave Thorpe (AA), Emily Dicks (CCGC, YMMG)
Darluniau llinell: English Nature

## 9. BYRFODDAU

AHNE: Ardal o Harddwch Naturiol Eithiadol, CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, DCGHT: Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, GNC: Gwarchodfa Natur Genedlaethol, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, SoDGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig,CGN: Cydbwyllgor Gwarchod Natur, YMGG: Ymwybyddiaeth Morol Cymru.

---

[1] Dosbarthiad Grwp Bioamrywiaeth DU - Jackson, D.L. 2000. Cyfarwyddyd ar ddehongliad Dosbarthiad Cynefin Eang Bioamrywiaeth (mathau tirol a dŵr croyw): Diffiniadau a'r berthynas gyda dosbarthiadau cynefin arall. Adroddiad JNCC Rhif 307.
[2] CGB y DU i Wastatiroedd Lleidiog
[3] CCW contract Science Report 564